

Y rhuthr am dai yng nghyd-destun heriau Covid-19 i'r gymdogaeth Gymraeg

Heini Gruffudd, Dyfodol i'r Iaith


Diolch yn fawr iawn am y cyfle i gynnig rhai sylwadau. Mae'r pandemig wedi ein hynysu yn ein cartrefi am gyfnodau hir, mae llawer wedi colli gwaith neu'n wynebu dyfodol ansicr, ac mae'r pandemig wedi dod â thrallod i lawer. Gadewch i ni beidio ag anghofio hynny wrth i ni drafod rhai o'r heriau y mae'r pandemig wedi'u gosod i'r Gymraeg.

Mae'n rhyfeddol bod yr egni a'r dyfeisgarwch sydd yn ein mysg o blaid y Gymraeg wedi golygu bod teuluoedd a mudiadau wedi manteisio ar y cyfleoedd newydd sy wedi dod yn sgil y cyfryngau electronig. Mae'r nifer sydd wedi mynd ati i ddysgu'r Gymraeg yn un enghraifft lachar, ond mae adroddiad y Llywodraeth (2020, *Effaith Covid 19 ar Grwpiau Cymunedol Cymraeg – canfyddiadau arolwg*) wedi nodi heriau sylweddol i'n cymdogaethau.

Y bwriad sy gen i'n awr yw dechrau ystyried sut mae'r pandemig wedi effeithio tri maes sy'n waelodol i adfer iaith a chynllunio iaith. Mae'r pandemig wedi dangos bod llawer o'n hymdrechion i gryfhau'r Gymraeg o ran ei hawliau, a chreu safonau sifig, er mor ganmoladwy yw'r rhain, yn colli pwysigrwydd os oes gwendidau sylfaenol yn y tri maes: y cartref, twf niferoedd a'r gymdogaeth.


Mae dadansoddiad y Llywodraeth o grwpiau cymunedol Cymraeg yn drawiadol, a diolch i'r Llywodraeth am gynnal yr ymchwil. Wn i ddim ai dyma'r tro cyntaf i ni gael syniad am nifer y cymdeithasau a'r mudiadau ledled y wlad sy'n cynnal ein bywyd Cymraeg. Dyw e ddim yn gyflawn, wrth reswm: rwy'n gwybod, er enghraifft am ryw ugain o gymdeithasau Cymraeg yn Abertawe sy ddim yn yr arolwg. Ond mae nifer y grwpiau cymunedol Cymraeg yn yr arolwg yn dangos mor bwysig yw'r rhain i'r bywyd Cymraeg, ac mae hefyd yn awgrymu bod cydberthynas rhwng nifer y grwpiau cymunedol Cymraeg â chanran siaradwyr Cymraeg mewn siroedd. Mae'r bywyd cymunedol Cymraeg ar ei gryfaf mewn siroedd lle mae mwy na 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg,

Ffigur 1 Nifer grwpiau cymunedol Cymraeg yn ôl canran siaradwyr Cymraeg mewn siroedd




Mae un grŵp Gymraeg ar gyfer pob 140 o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd Cymraeg, ac un ar gyfer pob 330 o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd mwy Seisnigedig. (Mae angen ymchwil bellach i wybod faint yn union o siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan yn y cymdeithasau yma.)

Ffigur 2: Nifer siaradwyr Cymraeg am bob grŵp cymunedol



O ystyried y boblogaeth gyfan, ar sail ffigurau Cyfrifiad 2011, mae tua 250 o bobl mewn ardaloedd Cymraeg am bob cymdeithas, 750 mewn ardaloedd canolig eu hiaith, a dros 3000 mewn ardaloedd mwy Seisnigedig (sydd o bosib yn rhai mwy trefol).

Ffigur 3: Nifer poblogaeth am bob grŵp cymunedol Cymraeg yn ôl natur ieithyddol ardaloedd



Mae Datganiad y Llywodraeth yn dilyn yr arolwg yn cydnabod bod angen gwaith trylwyr yn gymunedol, gan gynnwys cryfhau adnoddau, fel Canolfannau, clybiau chwaraeon a grwpiau celfyddydol, a datblygu'r bywyd Cymraeg ar lefel ficro mewn cymdogaethau. (Morgan, 2020) Mae'n glir bod heriau sylweddol o ran Cymreigio cymunedau a chymdogaethau yn y cyfnod ôl-Covid. Bydd angen mwy na rhoi mwy o gyllid i Fentrau Iaith i gael yr effaith. Wedi dweud hynny, mae'n dda deall bod y Safon Iaith sy'n ymwneud â sut mae awdurdodau lleol am hybu'r Gymraeg, yn mynd i gael sylw manwl gan y Llywodraeth. Dyma Safon 145, sydd yn Atodlen 4 y ddeddfwriaeth

Ffigur 4: Safon 145, Atodlen 4

| | |
|---------------------|--|
| ATODLEN 4 | Rheoliad 2(4) |
| Safonau Hybu | |
| RHAN 1 | |
| Y SAFONAU | |
| 1 | Safonau ynghylch corff yn hybu'r Gymraeg |
| Safon 145: | Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal |
| | https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/4/made/welsh |


Dyma, hyd y gwela i, y Safon bwysicaf ymysg holl Safonau'r Gymraeg ond dim ond yn awr, 6 blynedd ers cyhoeddi Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yr eir ati o ddifri i gynorthwyo Cynghorau lleol i osod targedau creadigol. Nid gwaith bach fydd cynnig arweiniad cadarn i'r 22 o awdurdodau, a'u perswadio bod angen mynd ymhellach na dangos sut maen nhw'n cydymffurfio â'r Safonau eraill, fel sy'n digwydd mewn ambell achos yn awr. Dyma gyfle i awdurdodau lleol gychwyn Canolfannau Cymraeg, gan gyfateb i'r hyn sy'n digwydd yng Ngwlad y Basgiaid.

Y mesur gorau o iechyd iaith yw cryfder trosglwyddo iaith yn y cartref, ac rwy'n gobeithio y bydd y Safon 145 yn rhoi cyfle i roi sylw ar lefel leol i hybu'r iaith mewn cartrefi. Byddai modd cysylltu Canolfannau Cymraeg lleol wrth brosiectau uchelgeisiol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu'r iaith i rieni ac i feithrin cartrefi Cymraeg. Mae ymchwil drylwyr a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar batrymau defnyddio'r iaith yn y cartref, yn cydnabod bod

'arbenigwyr yn pwysleisio'r angen am gynllun clir ar gyfer trosglwyddo (iaith yn y cartref) i hwyluso'r trosglwyddo ac i sicrhau bod y plentyn yn derbyn cymaint â phosibl o fewnbwn yn yr iaith leiafrifol'
(Evas a Morris, 2017, 24).

Mae'r patrymau trosglwyddo'n amrywio ledled Cymru, gyda'r rhai cryfaf mewn ardaloedd Cymraeg, er bod colled ieithyddol cyson rhwng gallu rhieni a'u plant, yn enwedig lle un rhiant sy'n siarad yr iaith. Tua 6 y cant o blant Cymru sy'n derbyn y Gymraeg yn y cartref, a'r ffigur hwn, ar y cyfan, wedi gwanhau dros y pymtheg mlynedd diwethaf:

Ffigur 5: Canran plant 5 oed yn derbyn y Gymraeg gartref



(Llywodraeth Cymru, 2021, t. 12)

Mae'n agos at dri chwarter y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg, felly, yn byw mewn cartrefi Saesneg. Fel ry'n ni wedi'i glywed, wrth i ysgolion fod ar gau yn ystod y cyfnod Covid, mae'r rhain wedi eu hamddifadu o gyswllt personol-fyw â'r Gymraeg. Nid colli addysg Gymraeg yn unig sy wedi digwydd, ond colli'r gweithgareddau Cymraeg amrywiol a chyfoethog sy'n cael eu darparu gan ysgolion, ac yn sgil gorfodaeth i ynysu, colli cyswllt personol â chyfeillion.

Mae hi'n gwbl amserol, felly, bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bolisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Mae'r Polisi'n cynnwys pedwar pwnc:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant hwy yn y dyfodol
- ii. Codi hyder a sgiliau iaith rhai sydd wedi gadael yr ysgol
- iii. Cefnogi ac annog defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Llywodraeth Cymru (2021), Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.

Mae'r rhain yn amcanion clodwiw, ac mae rhaglen waith wedi'i chysylltu â'r pwyntiau hyn. Ond mae'n rhaid gofyn ydy'r amcanion wedi'u cefnogi gan gyfundrefn gref a rhoi'r rhaglen ar waith yn llwyddiannus? Mae nifer fawr o ffactorau cymdeithasegol, addysgol ac economaidd, rhai yn eiddo'r Llywodraeth, yn milwrio yn erbyn yr amcanion. Ymysg y rhain mae:

- Polisi 'Seren' y Llywodraeth sy'n annog y disgyblion mwyaf disglair yng Nghymru i astudio ym mhrifysgolion Lloegr
- Prinder defnydd o'r Gymraeg yn y gyfundrefn addysg bellach
- Prinder gweithleoedd Cymraeg i rai sy'n gadael yr ysgol
- Gwendid economi ardaloedd Cymraeg
- Prinder tai fforddadwy mewn ardaloedd lled- a mwy Cymraeg.

Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn cyfrannu at amodau anffafriol i fagu teuluoedd Cymraeg.

Mae'r Polisi 'Seren', er enghraifft, yn tanseilio ymdrechion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ehangu'r Gymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru. Mae'n debygol bod myfyrwyr sy'n astudio yn Lloegr yn fwy tebygol o weithio a byw yno, gan gyfrannu hefyd at wanhau economi Cymru. Yn ei dro mae hyn yn debygol o wanhau'r ymdrech i gael staff Cymraeg mewn ysgolion a sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Mae disgyblion y gyfundrefn addysg bellach yn rhai y mae angen iddynt weithio'n lleol. Ai chwech y cant o fyfyrwyr addysg bellach sy'n derbyn peth o'u hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog? Heb fod y Gymraeg yn rhan annatod o addysg bellach myfyrwyr Cymraeg, mae'r Gymraeg yn debygol o ddiodeff fel iaith gwaith ac yna fel iaith teulu.

A derbyn, fel y gwna'r Llywodraeth, y gall dewis iaith y cartref fod yn digwydd heb benderfyniad bwriadol, mae angen i holl bolisiau addysg, economi a thai'r Llywodraeth fod yn gydlynus.


A thybio bod modd tynnu awdurdodau lleol i mewn i'r ymdrech i gryfhau'r Gymraeg mewn cartrefi, mae angen i'r Llywodraeth ystyried sut y gall glustnodi'r adnoddau ariannol a dynol i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn y Gymraeg gartref. Dylai hyn fod yn gonglfaen polisi Llywodraeth Cymru yn ei hymgyrch miliwn o siaradwyr. Er enghraifft, mae angen cefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gryfhau'r gwaith y mae eisoes yn ei wneud gyda rhieni di-Gymraeg yn y maes yma. Yn sgil argyfyngau Brexit a Covid, mae'r Ganolfan hon wedi colli cyllid sylweddol. Caiff HABE, yng Ngwlad y Basgiaid, ryw £40 miliwn y flwyddyn. Nid yw cyllid Mentrau Iaith, a allai fod yn ddylanwadol yn lleol, wedi codi ers blynyddoedd ac mae angen dybryd i gryfhau'r Mudiad Meithrin mewn sawl rhan o Gymru fel y gall hyrwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

Mae angen gofyn sut mae modd dwyn i mewn S4C, BBC Cymru a BBC Wales ac ITV Wales, a'r cyfryngau electronig sy wedi bod yn dynfa yn y cyfnod Covid, a'r cyfryngau print, i fod yn rhan o'r ymgyrch. Peidiwn â thangyfrif maint y dasg na'r adnoddau angenrheidiol.

Wrth i nifer y plant sy'n derbyn y Gymraeg gartref ostwng, rydyn ni wedi mynd i ddibynnu mwyfwy ar y system addysg i gynnal y Gymraeg. Mae hi bellach yn hen bregeth nad yw ysgolion, yn y pen draw, yn gallu gwneud iawn am wendidau iaith yn y cartref a'r gymuned. Er bod addysg drochi'n rhan annatod o'r ymdrech i adfywio iaith, ni fydd yr enillion personol mewn sgiliau iaith yn arwain at gynnydd mewn trosglwyddo'r Gymraeg o'r naill genhedlaeth i'r llall nes bydd y Gymraeg yn adennill ei lle mewn cartrefi a chymunedau.

Ond o dderbyn bod angen i'r system addysg wneud iawn am wendid y Gymraeg mewn cartrefi, mae angen cydnabod mai twf addysg Gymraeg ers yr Ail Ryfel Byd yw un o brif arwyddion gobaith y Gymraeg. Bu'r twf yn raddol, ond cyflymmodd ryw gymaint yn y deng mlynedd diwethaf, gan roi cyfartaledd o 1% ers 2004.


Ffigur 6: Nifer disgyblion iaith gyntaf fesul tair blynedd, blynyddoedd 1-11



[\(Disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11, yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn \(llyw.cymru\)\)](https://llyw.cymru/)


Ond os edrychir yn fwy manwl, mae canran y twf fesul blwyddyn yn ansefydlog, heb dwf uwch nag 1.5%:

Ffigur 7: Canran twf disgyblion iaith gyntaf, bl 1-11, fesul blwyddyn



Cadarnheir yr un duedd os edrychwn ar nifer y disgyblion rhugl yn y Gymraeg, ym mlynnyddoedd 1 – 11 yn ystod yr un cyfnod. Er bod niferoedd y disgyblion rhugl wedi codi o 57,410 i 64,030 dros bymtheng mlynedd, mae'r twf fesul blwyddyn yn ansefydlog, gyda thuedd ddiweddar i gynydd y twf leihau:

Ffigur 8: Canran twf disgyblion rhugl yn y Gymraeg 2004/5 – 2019/20



<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/abilityspeakwelshpupils5andover-by-localauthorityregion-category>

Yn ystod y cyfnod clo, mae cynllunio addysg Gymraeg yn parhau, ac mae gobaith y bydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, o gael targedau dros 10 mlynedd, gyda'r

Llywodraeth yn gosod nodau penodol i bob awdurdod lleol, yn fwy llwyddiannus na Chynlluniau'r gorffennol. Realiti'r blynyddoedd diwethaf yw mai cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion Cymraeg yw'r prif ffactor am y twf a fu, a chynnydd y rhain fydd y prif ffactor yn y dyfodol.

Y pwnc pwysig yn awr yw sut mae cynyddu'r momentwm. Cafodd cyllid penodol ei gysylltu wrth gynlluniau awdurdodau lleol yn y cyfnod arian cyfalaf diwethaf a gobeithio eto eleni. Heb gyllid cyfalaf digonol, mae'n anodd gweld y bydd twf addysg Gymraeg yn cyflymu ar raddfa fydd yn trawsnewid y sefyllfa. Mae rhai siroedd, fel Castell-nedd Port Talbot, wedi llwyddo i fethu ag agor un ysgol gynradd Gymraeg newydd mewn ugain mlynedd. Ychwaneger at hyn yr angen am raglen uchelgeisiol o hyfforddi staff addysg fel na chaiff twf addysg Gymraeg ei lesteirio.

Rydyn ni wedi clywed yn aml nad yw disgyblion ysgolion Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Does dim byd newydd yn hyn. Dangosodd ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Abertawe gan Cynog Dafis a minnau ac eraill, ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, fod dau brif ffactor yn dylanwadu ar ddefnydd pobl ifanc o'r iaith, sef y cartref a'r gymdogaeth (Gruffudd 1996).

Ers hynny mae rhai wedi dadlau bod angen ailedrych ar sut rydyn ni'n ystyried cymuned a bod angen cydnabod bod rhwydweithiau rhyngpersonol a phatrymau gwaith yn fwy symudol yn y byd sydd ohoni. Y ddadl yw nad yw canolbwyntio ar y gymuned ddaeryddol i yn ddigonol i ganfod dylanwadau ar y defnydd o iaith (Jones a Lewis, 2019).

Yr hyn sy'n aros yn sefydlog, fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc tan oed gadael ysgol, yw eu bod yn treulio'u plentyndod a'u glasoed mewn lleoliad daeryddol, a dyna, ac eithrio'r teulu, y dylanwad ieithyddol mwyaf arnyn nhw'n ieithyddol.

Mae angen ystyried felly pa mor gadarn neu fregus yw ein cymdogaethau Cymraeg. Fe welir bod mewnfudo – nid o reidrwydd ail gartrefi neu dai gwyliau - yn ffactor dylanwadol. Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol, sydd ar waith ledled Ewrop, yn rhannol gyfrifol am y mewnfudo:


- Economi lled wledig yn rhy wan i gadw pobl ifanc yr ardaloedd ag iaith leiafrifol
- Atyntfa canolfannau dinesig
- Tai ar drugaredd y farchnad rydd
- Bywyd mewn amgylchiadau mwy dymunol yn denu cyfoethogion dinesig
- Yn sgil Covid, mwy yn gweithio o'r cartref ac am ddod i'r wlad

Yn ddiddorol, yng Ngwynedd yn 2011, roedd 90% o'r boblogaeth a honnai genedligrwydd Cymreig neu Gymreig a Phrydeinig yn gallu siarad y Gymraeg. Dim ond 13.7% o'r rhai a honnai genedligrwydd Seisnig neu Seisnig a Phrydeinig oedd yn medru'r iaith. Yng Ngheredigion, roedd 76.8% o'r boblogaeth Gymreig yn siarad Cymraeg, ond dim ond 10.6% o'r rhai Seisnig. Ym Môn roedd 81.5% o'r boblogaeth Gymreig yn siarad yr iaith, ac 13% o'r boblogaeth Seisnig.

Yn wahanol i rannau helaeth o dde Cymru, mae Cymreictod ein siroedd mwy Cymraeg yn cael ei ddiffinio gan iaith. (Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Mae'r patrwm yn y tair sir yn debyg.

Ffigur 9: Nifer rhai o genedigrydd Cymreig a Seisnig yn siarad Cymraeg yn siroedd mwy Cymraeg Cymru



Mae'r mewnfudo wedi cynyddu, os yw dyn i gredu cyfweiliadau ar Radio Cymru a'r wasg yn gyffredinol. Mae'n ymddangos bod prisiau'n codi, a bod traean o'r tai a werthwyd yng Ngwynedd yn y cyfnod hwn, wedi eu gwerthu i fewnfudwyr.

Medd adroddiad gan Propcast fod prisiau tai yng Nghymru wedi codi 10.7% yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr, yn uwch nag unrhyw un o wledydd eraill y D.U (*The Sunday Times*, 2 Chwefror 2021).

Ffigur 10: Sylw yn y wasg i'r twf mewn galw am ail dai a thai i rai sy'n mewnfudo

Covid-19: Working from home leads to house price rise in Wales

Pent-up demand after Covid lockdown fuels UK house sales surge

Brits set sights on second homes in the UK as travel restrictions increase

Rich Europeans Flee Virus for 2nd Homes, Spreading Fear and Fury



Mae prisiau tai sengl yng Ngwynedd wedi codi 14.6% yn ystod cyfnod Covid, yn ôl y *Sunday Times* ar sail ymchwil Hamptons. Ymysg y 5 sir â'r cynnydd uchaf ym Mhrydain o ran ail gartrefi yn y cyfnod Covid roedd Gwynedd a Môn. Ym Môn roedd 31% o'r tai a werthwyd yn ail gartrefi, a 27% yng Ngwynedd. (Cymharer â Chernyw, 13%)

Ar 11 Chwefror cafwyd adroddiad Cwmni Adeiladu Principality, bod prisiau tai yn gyfartalog wedi cyrraedd £209,723 a bod '18 o'r 22 sir yng Nghymru wedi gweld y prisiau uchaf erioed yn nhri mis olaf 2020'. Cododd prisiau 8.2% yn 2020, gyda chynnydd o 16% yn Ynys Môn, 14% yng Nghonwy. Dywedodd Dafydd Hardy mai 'dim ond tua un o bob tri o'r prynwyr oedd yn bobl yn symud o du hwnt i Gymru'.

Efallai bod angen i Dafydd Hardy ystyried yr ymadrodd 'dim ond'. Mae pwysau Covid wedi peri bod pobl am gael tŷ â gardd, ac mae gweithio o'r cartref wedi dod yn realiti i lawer. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar dai, uwchben y galw am dai haf, neu dai gwyliau.

Mae Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol yn chwilio am ffyrdd o ddatrys y rhuthr yma am dai; doedd codi'r dreth brynu ar ail dai ddim wedi cael fawr o ddylanwad. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi eu bod wedi rhoi cefnogaeth i godi 20,000 o dai fforddadwy. Mae Gwynedd am gychwyn prynu tai i'w rhentu. Mae Ceredigion yn arbrofi gyda chynlluniau gwerthu tir i bobl leol ac mae Caerfyrddin am fynd i'r afael â'r sefyllfa dai.

Mae'r un awydd i sicrhau tai i bobl leol mewn sawl rhan o Ewrop. Pasiodd y Swistir yn 2012, o drwch blewyn, ddeddf yn cyfyngu ail gartrefi i ddim rhagor nag 20% o dai unrhyw ardal (heb gyfyngiad ar dai llety). Mae gan Ardal y Llynnoedd gynlluniau ar gyfer ehangu tai cymdeithasol. Mae cyfuniad o ddeddfu ac o ymyrryd yn y farchnad dai'n digwydd, ac mae egwyddorion rheolaeth dda yn cael eu trafod ledled Ewrop, gan gynnwys gwarchod pobl mewn angen, sicrhau tai fforddadwy, ymwrthod â gorelwa, cynllunio defnydd tir ac adeiladau, a sicrhau sector adeiladu sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. (*Urban Agenda for the EU, Housing Partnership: Action Plan* ec.europa.eu)

Yng Nghymru mae'n amlwg bod angen deddfu ar lefelau ail gartefi a thai haf, ond ar yr un pryd mae cryfhau economi, a chael tai i bobl leol yn rhan hanfodol o'r ateb. Gyda modd gweithio fwyfwy o'r cartref, mae posibilrwydd y gall pobl ifanc ddawnus aros yn eu cymuned yn lle cyrchu'r dinasoedd. A phan ddaw mewnfudwyr, mae angen deall sut mae eu lapio yn ein hiaith a'n Cymreictod, er enghraifft trwy gynnig pecynnau croesawu a chynnig gwersi Cymraeg am ddim, fel sydd wedi digwydd i fewnfudwyr i Loegr.

Mae'n dod yn eglur nad oes modd i ni ddatrys yr heriau sydd wedi dwysáu yn ystod cyfnod Covid yn y tri maes allweddol hyn, yr iaith yn y cartref, y system addysg ac yn y gymdogaeth, heb fod gyda ni drefn rymus, ac adnoddau digonol, i gynllunio ac i fynd i'r afael â'r cyfan.

Meddai Bill Gates bod datrys y pandemig yn chwarae plant bach o'i gymharu â datrys newid hinsawdd. Yr hyn sydd ei angen i ni yng Nghymru yw newid hinsawdd y Gymraeg. Fydd hynny ddim yn digwydd yn awr heb i rai pethau newid.

- Mae Prosiect 2050 y Llywodraeth (y prosiect sy'n anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) wedi ei guddio ym mherfedd y Llywodraeth. Mae angen iddo gael ei ddyrchafu'n brosiect gwirioneddol gyhoeddus a chenedlaethol
- Mae angen gweinidog llawn amser ar y Gymraeg, yn hytrach na bod y swydd yn cael ei rhannu â chwaraeon, dyletswyddau Prif Weinidog, Brexit neu lechyd meddwl.
- Mae angen i is-adran y Gymraeg yn y Llywodraeth gael ei dyrchafu'n adran gyflawn
- Os ydyn ni'n credu bod gwerth mewn adfer y Gymraeg yn iaith genedlaethol, mae angen rhoi adnoddau digonol, e.e. treblu'r cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel y gallan nhw drawsnewid sgiliau iaith gweithwyr sectorau cyhoeddus a llawr gwlad
- Mae angen mynd i'r afael â heriau recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu addysg
- Yn yr un modd mae angen datblygu personél ag arbenigedd cynllunio iaith i gynnig cynlluniau dychmygus ac eang fydd yn treiddio i bob cymdogaeth
- Mae angen datblygu rhaglen genedlaethol eang i gael rhieni i ystyried mai eu dyletswydd a'u braint yw siarad Cymraeg gyda'u plant.

Ym marn Dyfodol i'r iaith, mae gofidiau'r cyfnod Covid yn rhoi tystiolaeth bellach bod angen ystyried sefydlu Corff Cenedlaethol Cynllunio Iaith grymus, gydag adnoddau digonol, fydd yn gallu mynd i'r afael â phrosiect mor fawr â hyn. Mae angen i'r Corff fod yn annibynnol o wleidyddiaeth fypwyl pleidiau, a bod yn rhan amlwg o fywyd diwylliannol ac economaidd Cymru.

Evas, J a Morris, J (2017), *Trosoglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*, Llywodraeth Cymru.

Gruffudd, H (1996) *Pobl Ifanc a'r Gymraeg, Prifysgol Abertawe*.

Jones, R a Lewis H (2019), *New Geographies of Language: Culture and Politics in Wales*, Palgrave Macmillan

Llywodraeth Cymru (2020) *Effaith CODI-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg 10 Rhagfyr 2020*

Llywodraeth Cymru (2021), *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*.

Llywodraeth Cymru (cyrchwyd 2021) *Stats Cymru*, [Disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11, yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

Morgan, Eluned, (2020) *Effaith COVID-1 ar grymiau cymunedol Cymraeg: argymhellion Is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg*, 16 Rhagfyr 2020.

Swyddfa Ystadegau Gwladol / Office for National Statistics [Data Viewer - Nomis - Official Labour Market Statistics \(nomisweb.co.uk\)](#) cyrchwyd 11 02 2020

Urban Agenda for the EU, Housing Partnership: Action Plan. ec.europa.eu

Sunday Times, 2 Chwefror 2021, 'Homes', t. 2.